# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Care Home Ltd**

**Cartref Care Home**
**Henllan**
**Llandysul**
**SA44 5TD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Care Home Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | CARTREF CARE HOME LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14/10/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt gan weithwyr gofal gwybodus. Caiff anghenion a dewisiadau unigol y bobl eu deall a'u parchu. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ond mae angen cynnwys y person a/neu ei gynrychiolydd wrth eu datblygu a dogfennu'r adolygiad yn well. Mae'r bobl, eu perthnasau, a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld yn canmol y gweithwyr gofal a thîm rheoli'r gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau, y staff a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn parchu'r rheolwr. Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n defnyddio ei hymweliadau a dulliau amrywiol i archwilio ansawdd er mwyn sicrhau bod ganddi drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol, croesawgar a glân. Mae'r décor mewnol a'r dodrefn yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ond gellid gwneud yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau cymunedol yn fwy croesawgar ac yn fwy addas i bobl ag amhariad ar eu golwg.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd, yn dewis eu prydau bwyd, ac yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.  Mae'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd yn rhan o'r broses o gynllunio ac adolygu ei ofal ond mae angen i hyn gael ei gofnodi'n well. Yn ystod ei ymweliadau Rheoliad 73, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgynghori â'r bobl drwy holiaduron, a chaiff y rhain eu defnyddio i lywio'r adroddiadau chwemisol ar Ansawdd y Gofal. Mae'r bobl yn sgwrsio yn Gymraeg ac yn cael gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus ac wedi'u hyfforddi'n dda, ac mae ganddynt feddwl uchel o'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae gan y gwasanaeth gydberthynas dda â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Gall y bobl godi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny.
Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ac yn defnyddio'r dulliau gofal cywir. Mae'r staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ac maent yn cael eu cefnogi gan bolisïau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd
.

Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn helpu'r bobl i gynnal eu llesiant ac mae cynllun adnewyddu parhaus ar waith. Fodd bynnag, gellir gwella'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau er mwyn cynnig profiadau ymolchi mwy croesawgar i'r bobl a chefnogi pobl ag amhariad ar eu golwg.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r staff gofal yn deall anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn wybodus am hanesion personol yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus iawn yn byw yng Nghartref Gofal Cartref, gan gynnwys *It's a very good home, the carers are lovely", "I like it here, I am well looked after"* ac *"I've got a lovely bedroom, the staff are very friendly".* Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal a chymorth penodol. Fodd bynnag, mae angen i'r cynlluniau gynnwys manylion am sut y dylai'r gweithwyr gofal ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen. Caiff asesiadau risg ategol eu hadolygu'n rheolaidd. Er ein bod wedi cael sicrwydd bod y bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth gynllunio ac adolygu eu gofal, mae angen i hyn gael ei ddogfennu'n well.

Mae'r perthnasau yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir i'w hanwyliaid yn fawr. Gwnaethant ddweud wrthym, *"the carers are very good, they know mum and about her Dementia and are really kind to her"*, a *"the carers know my mother and have built up ways of communicating with her even though she has Dementia. Her clothes look clean and she is always well presented"*

Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth wrthym "this is a good home".

Mae'r bobl yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant yn dewis gwneud hynny, ac mae amrywiaeth o opsiynau prydau ar gael, y gallant eu bwyta yn yr ystafell fwyta gymunedol neu yn ystafelloedd y bobl. Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n garedig â'r bobl. Mae nifer o'r staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg gan mai dyma eu dewis iaith.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y cartref ac y gallant godi pryderon os oes angen iddynt wneud hynny. Gwnaethant ddweud wrthym, "*I know I can speak to any of the carers or [rheolwr] if I am concerned about anything"* ac *"I would speak to a carer if I had any problems".*

## Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Gofynnir i bob ymwelydd lofnodi wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cwblhau. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u gwasanaethu o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ar y cyfan heb unrhyw beryglon. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Mae'r larymau argyfwng yn hawdd i'r bobl eu cyrraedd i'w defnyddio ac mae'r staff yn ymateb iddynt mewn modd amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol, ond gellid gwneud rhai gwelliannau. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu haddurno a'u dodrefnu'n unol â hoff bethau a dewisiadau'r unigolion. Mae'r coridorau yn llawn amrywiaeth o luniau, paentiadau a gwrthrychau sy'n helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch y gwasanaeth. Mae nifer o'r lluniau sy'n cael eu harddangos yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r ardal leol. Mae rhai arwyddion dwyieithog i'w gweld yn yr ardaloedd cymunedol. Ceir arwyddion hefyd i helpu'r bobl i ddod o hyd i'r cyfleusterau cymunedol a'u hystafelloedd gwely eu hunain.

Gellid gwneud yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau yn fwy croesawgar i'r bobl eu defnyddio. Gellid hefyd ystyried defnyddio lliwiau gwrthgyferbyniol ar gyfer y canllawiau a'r goleuadau yn rhai o'r toiledau a'r ystafelloedd ymolchi er mwyn cefnogi'r bobl ag amhariad ar eu golwg yn well. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym fod rhaglen adnewyddu ac ailaddurno barhaus ar waith.

Mae'r ystafelloedd byw cymunedol yn cynnig dewis i'r bobl o ran ble i gymdeithasu â'u ffrindiau ac ymwelwyr ac maent wedi'u dodrefnu i hyrwyddo ymdeimlad 'cartrefol' yn y gwasanaeth. Gwelsom un person yn gwrando ar gerddoriaeth glasurol mewn lolfa dawel fach. Dywedodd person arall wrthym '*this is a lovely lounge; it does feel cosy and homely*”.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a hyfforddedig sy'n cael eu cefnogi. Mae'r gweithwyr gofal yn deall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda a gallant ddarparu manylion am yr unigolion yn eu gofal a'u hanghenion gofal penodol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mynychu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant, a chaiff hyn ei ategu drwy ddarllen matrics hyfforddiant y staff.

Dangosodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i ddiogelu'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r bobl yn cael eu symud a'u trin yn ddiogel, a chaiff eu hanghenion unigol eu hystyried. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd wedi'u dogfennu, ac arfarniad blynyddol. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y staff y gwnaethom siarad â nhw. Roedd y cofnodion goruchwylio ac arfarnu a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y rheolwr yn dilysu'r hyn a ddywedwyd wrthym.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol sydd, yn ei dro, yn arwain ac yn cefnogi tîm staff Cartref Care Homes. Mae'r gweithwyr gofal yn canmol y rheolwr, yr Unigolyn Cyfrifol a'r profiad o weithio yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym, '*I am very happy here, we are like a family. I am well supported by the manager and [Unigolyn Cyfrifol]”*, *“I really like the [Unigolyn Cyfrifol], he always speaks to the staff, remembers our names and always spends time with the residents. He’s a lovely man”* a *“This is a lovely place to work”.*

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu trylwyr ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae wedi cynnal ymweliadau Rheoliad 73 â'r gwasanaeth. Mae AGC wedi cael copïau o'r adroddiadau hyn, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio a dethol priodol ar waith. Caiff gwiriadau recriwtio diogel eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae’r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu’r gwasanaeth a ddarperir a rhoddir gwybod i AGC am ddigwyddiadau yn briodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/08/2024